





Aseiniadau fideo

Mae fideo yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel cyfrwng nid yn unig i ddarparu cynnwys o ddarlithwyr i fyfyrwyr ond hefyd fel arddull i fyfyrwyr arddangos eu dealltwriaeth a dysgu. Y dull mwyaf effeithlon o gyflwyno fideo i'ch tiwtor yw trwy OneDrive. Mae'r canllaw hwn yn arddangos sut i recordio a llwytho fideo i OneDrive ar gyfrifiadur, cluniadur neu Mac. Er mwyn danfon i fideo o OneDrive i'ch tiwtor mi fydd angen **Rhannu** - gweler y canllaw ar wahân **"Rhannu ffeil o OneDrive"**.


Cam 1:

Recordiwrch y fideo gan ddefnyddio eich webcam – y ffordd rwyddach o wneud hwn ar gyfrifiadur neu gluniadur yw drwy **Office Mix** – ychwanegiad at Powerpoint sydd eisoes wedi'i osod ar gyfrifiaduron campws ac yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho (<https://mix.office.com>) ar ddyfeisiau personol. Dewiswch **Mix** o'r fwydlen, yna **Slide Recording**. Dewiswch y camera a'r meicroffon cywir a sicrhewch eich bod yn dewis **Full Screen** nid Thumbnail. Ar ôl gorffen recordio, caewch y sgrin "Slide Recording" ac mi fydd y fideo yn ymddangos ar eich sleid Powerpoint. Cliciwrch y botwm dde a dewis **Save Media As** i'w arbed fel ffeil fideo ar eich dyfais. Ar Mac defnyddiwrch QuickTime – dewiswch **New Movie Recording**. Arbedwch y fideo gydag enw cofiadwy mewn lle cyfleus fel eich sgrin gartref – gallwch ei symud i ffolder yn hwyrach. Os ydych yn recordio ar ddyfais wahanol fel camera fideo digidol, mi fydd angen i chi drosglwyddo'r recordiad i'ch cyfrifiadur fel ffeil fideo. Dilynwch ganllawiau'r cynhyrchydd i wneud hyn gan ei fod yn dibynnu ar y math o ddyfais a ddefnyddiwyd.




Cam 2:

Ewch at eich OneDrive drwy'r deilsen ar MyDay (myday.uwtsd.ac.uk) neu mewn porwr we at <https://onedrive.live.com> – i fewngofnodi i MyDay a OneDrive defnyddiwrch eich manylion mewngofnodi Prifysgol. Unwaith rydych wedi mewngofnodi i OneDrive fe welwch y brif sgrin yn rhestr y ffeiliau a'r ffolderi sydd eisoes yn eich OneDrive. Ar ben y rhestr fe welwch dri opsiwn – New, Upload a Sync – cliwrch **Upload** ac yna **Files**.



Cam 3:

Nawr fe welwch y ffeiliau ar eich dyfais (**Explorer** ar gyfrifiadur/cluniadur a **Finder** ar Mac). Ffeindiwch a dewiswch eich fideo ble wnaethoch ei arbed a chliciwrch **Open**. Mi fydd y ffeil nawr yn llwytho i'ch OneDrive ac fe welwch **Uploading** ar dde uchaf y sgrin yn troi i **Uploaded** unwaith mae'r broses wedi gorffen.



Cam 4:

Mi fydd eich fideo nawr yn eich OneDrive, ble bynnag yr ewch iddo - ar eich ffôn, drwy MyDay neu unrhyw ddull arall. Am gymorth ar sut i rannu ffeil o OneDrive gweler ein canllaw **"Rhannu ffeil o OneDrive"**.

